Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Pan fydd y Gwasanaethau i Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn cymryd rhan

Taflen wybodaeth i blant a phobl ifanc

(6-11)

Beth fydd yn digwydd?

Pwy all fy helpu i?



Bydd y daflen hon yn eich helpu chi i ddeall beth fydd yn digwydd os yw'r Gwasanaethau i Blant yn poeni amdanoch chi a'ch teulu.

Ar gefn y daflen, mae tudalen wag i chi ysgrifennu neu dynnu llun o unrhyw beth pwysig yr hoffech chi ei gofio. Gallwch chi hefyd ei defnyddio i ysgrifennu unrhyw feddyliau, teimladau neu gwestiynau sydd gennych chi.

**Mae gennych chi hawl i gael eich clywed. Weithiau gall fod yn anodd dweud wrth bobl sut rydych chi'n teimlo a beth sy'n eich gwneud chi'n hapus neu'n drist. Mae eiriolwr yn rhywun sy’n gallu eich helpu chi i ddweud wrth bobl sut rydych chi'n teimlo.**

# Cynhadledd Amddiffyn Plant

## Pwy allai fod yno?



Chi a/neu'ch eiriolwr



Eich rhieni/gofalwyr/aelodau o'r teulu



Eich Gweithiwr Cymdeithasol



Rhywun o'ch ysgol



Nyrs ysgol/eich meddyg




Yr heddlu

# Cynhadledd Amddiffyn Plant

## Beth allai ddigwydd?



Bydd pob person yn ysgrifennu adroddiad amdanoch chi a'ch teulu. Byddan nhw'n dweud beth sy'n mynd yn dda a beth maen nhw'n poeni amdano.



Byddan nhw'n siarad am sut rydych chi a'ch teulu'n teimlo, beth maen nhw'n poeni amdano a beth yr hoffen nhw ei newid.

Mae rhai plant yn dod i rannau o'u cyfarfodydd. Bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol yn siarad am hyn gyda chi.




**Mae'r ffordd rydych chi'n teimlo yn bwysig iawn a byddwch chi neu'ch eiriolwr yn gallu rhannu eich dymuniadau a'ch teimladau â phobl.**



Bydd pobl yn y cyfarfod yn siarad am eu pryderon. Os ydyn nhw'n credu bod angen i bethau newid i chi a'ch teulu er mwyn eich amddiffyn chi a'ch cadw chi'n ddiogel, bydd eich enw yn cael ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

# Y cynllun i'ch cynorthwyo a'ch amddiffyn chi



Os rhoddir eich enw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, bydd y bobl yn y cyfarfod yn cytuno ar gynllun i'ch cynorthwyo a'ch amddiffyn chi.



Nod y cynllun yw gweithio gyda'n gilydd i helpu gwella pethau i chi a'ch teulu.

# Beth sy'n digwydd ar ôl i'r cynllun gael ei roi ar waith?




Bydd gennych chi Weithiwr Cymdeithasol a fydd yn dod i ymweld â chi, weithiau gartref, weithiau yn yr ysgol.



Bydd y cynllun i'ch cynorthwyo a'ch amddiffyn chi yn cael ei drafod bob mis i weld a oes angen gwneud unrhyw newidiadau.

Bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol yn siarad â chi a'ch teulu i weld pa newidiadau rydych chi'n meddwl sydd angen eu gwneud. Bydd hyn yn cael ei rannu yn y cyfarfod.

# Cynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant



Bydd Cynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant yn cael ei chynnal ymhen 3 mis.




Bydd y bobl yn y gynhadledd adolygu yn siarad am yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod y 3 mis diwethaf, pa mor dda y mae'r cynllun i'ch cynorthwyo a'ch amddiffyn chi yn gweithio, ac a oes unrhyw bryderon o hyd.



Os yw pobl yn dal i bryderu, efallai y bydd eich enw'n aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Os felly, byddai'r cynllun i'ch cynorthwyo a'ch amddiffyn chi yn parhau am 6 mis arall.

Os yw pobl yn credu bod y cynllun yn gweithio i'ch amddiffyn chi a'ch cadw chi’n ddiogel, gall eich enw gael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

# Fy nodiadau neu luniau